cynllun prentisiaeth
gwasanaeth tân ac achub de cymru

south wales fire and rescue service
apprenticeship scheme

# PRENTIS TECHNEGYDD CORFF A PHAENT CERBYD

**(Cytundeb cyfnod penodol o 4 blynedd)**

**CYFLOG**

**£227.57 yr wythnos 16-17 oed**

**£331.02 yr wythnos 18 oed ac yn fwy +**

Cychwynnwch daith gyffrous drwy ymuno â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru fel Prentis Technegydd Corff a Phaent Cerbydau o fewn y Gweithdai Fflyd a Pheirianneg. Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu fflyd o fwy na 400 cerbyd a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael y swydd yn heriol ac yn foddhaus ill ddau.

**Bydd y cyfle hwn yn cynnig hyfforddiant a phrofiad mewn:**

- paentio a llaw a chwistrell,
- atgyweiriadau weldio drwy law aml brosesau,
- saernïo, trwsio, addasu, ailwampio a chynnal a chadw.

Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus ddatblygu ei lefel o arbenigedd technegol a gwybodaeth am weithio'n ddiogel drwy ddilyn rhaglen o Addysg Bellach o fewn y gweithle ac amgylchedd Coleg ill dau.

**Dylai fod gan ymgeiswyr y canlynol: -**

- Lefel sylfaenol o allu mecanyddol.
- Awydd i ddysgu a deall y disgyblaethau peirianneg fodurol niferus sy'n rhan o sgiliau cyffredinol technegydd.
- Trwydded Yrru Categori B (Car) neu fod yn fodlon hyfforddi ar gyfer Trwydded Categori B.

Disgwylir i ddeiliad y swydd ennill cymhwyster Prentisiaeth Sylfaenol mewn Trwsio Cerbydau Lefel 2 ochr yn ochr â'u gwaith bob dydd, ac wedyn Prentisiaeth Sylfaenol mewn Trwsio Cerbydau Lefel 3.

**Nid yw'n bosib i ymgeiswyr sydd am gael eu hystyried ar gyfer y brentisiaeth: -**

- Feddu'n barod ar gymhwyster sy'n cyfateb i, lefel uwch, neu yn yr un maes pwnc â Lefel 2 a 3 mewn Atgyweirio Cerbydau.
- Fod yn ymgymryd ag unrhyw gymhwyster arall a ariannir gan lywodraeth.

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael gwiriad boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn ogystal â phrawf cyffuriau ac alcohol cyn y gweir apwyntiad.

Ydych chi'n siarad Cymraeg? Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol.

Dylid llenwi Ffurflen Gais ar-lein trwy ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu trwy ein gwefan: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/lswyddi-gwag-diweddarach/
Os bydd angen fersiwn bapur arnoch chi mae croeso i chi anfon e-bost: personél@decymru-tan.gov.uk

**Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno ymatebion i dri chwestiwn penodol sy wedi cael eu cynnwys gyda'r hysbyseb swydd, gan ddefnyddio dogfen ar wahân. Dylech chi lwytho eich dogfen Word neu PDF i'r adran 'Atodiad Gwybodaeth Ategol' ar eich ffurflen gais.**

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **18/12/2023 am 12:00 ganol dydd.**

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac rydym yn croesawu gohebiaeth yn y naill iaith neu'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo cyrraedd y cam Llunio'r Rhestr Fer yn cael y cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar, a chwestiynau cyfweliad). Bydd trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad a gallant gynnwys Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.